COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 13 Chwefror 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dim

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**BC32-01(terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu fformat terfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod ar gyfer eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC39-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu fformat drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyhoeddi yn y cyfarfod nesaf yn eu fformat terfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion sy'n codi**

**BC32-01**

3.1 **Paragraff 7.2** – Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Trefnydd a oedd wedi ymateb i bryderon aelodau ynghylch y Datganiad ar Strategaeth yr NHS.

Dywedodd y Trefnydd y gwnaed y Datganiad ar 1 Chwefror, ac y cafodd y ddogfen ategol ei chyhoeddi fel dogfen gan Gabinet y Cynulliad.

3.2 **Paragraff 11.1** – Atgoffodd y Dirprwy Lywydd y Pwyllgor bod angen iddo lunio barn ynghylch cynnal eisteddiad ar ddiwrnod yr Etholiad Cyffredinol oedd i ddod. Dëellwyd bod arweinyddion y pleidiau wrthi'n trafod hyn.
**Gweithredu: Ystyried o dan adran 'materion sy'n codi' yn y cyfarfod nesaf**

**BC39-01**

3.3 **Paragraff 3.2** – Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi trafod papur BC29-01, ynghylch dadleuon ar adroddiadau pwyllgorau pwnc, gyda'r Cabinet. Roedd y Cabinet yn fodlon â'r sefyllfa fel yr oedd, gyda'r Cynulliad yn ystyried cynnig "i nodi" ar adroddiadau pwyllgorau. Serch hynny, gan nad oedd unrhyw fecanwaith ffurfiol ar gyfer ymateb i adroddiadau pwyllgorau, byddai'r Cabinet yn ymateb drwy wneud Datganiad mewn Cyfarfod Llawn ar ddyddiad diweddarach. Roedd William Graham a Jocelyn Davies wedi'u siomi na fyddai'r Cabinet yn ymateb gyda dadl ar gynnig y gellid cyflwyno gwelliannau iddo. Serch hynny, cytunwyd y byddid yn gweld sut yr oedd cynigion y Cabinet yn gweithio yn ymarferol ac ail-ystyried y mater gan y Pwyllgor Busnes os byddai angen.

3.4 **Paragraff 4.7** – Dywedodd Marion Stapleton ei bod wedi siarad â swyddogion ynghylch gorchymyn Brian Hancock ar Reol Sefydlog 29. Roedd hi'n deall bod y gorchymyn drafft yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd cyn cael ei drosglwyddo at Weinidog y Cynulliad. Nid oedd hi'n gwybod pryd y byddai'n cael ei ddadlau, ond cytunodd i roi gwybod i Jocelyn Davies. **Gweithredu: Marion Stapleton i gysylltu â Jocelyn Davies**

3.5 **Paragraff 7.6** – Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod yr arferion a gweithdrefnau a ddilynid yn y gorffennol ar gyfer cwestiynau a chyfraniadau yn dilyn datganiadau gan y Cabinet yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Gobeithid y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl y toriad hanner tymor.

## 4. Is-ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC41-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 2001

4.2  Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC42-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**<u>Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro) (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2001</u>**

4.3  Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC43-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau'r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001</u>**

4.4  Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC44-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol (yn dilyn cais oddi wrth Jocelyn Davies am ddadl ar y Gorchymyn drafft).
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Cyfyngu Pithio (Cymru) 2001</u>**

4.5  Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC45-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001</u>**

4.6  Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC46-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio

ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001</u>**

4.7 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC47-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Darpariaethau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2001</u>**

4.8 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC48-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**<u>Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001</u>**

4.9 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC49-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2001</u>**

4.10 Nododd y pwyllgor Busnes y papur BC52-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, ar y gorchymyn uchod a oedd yn cael ei lunio ar y cyd gyda Lloegr a'r Alban o dan Reol Sefydlog 23. Nodwyd y gellid cyflwyno'r gorchymyn i Gyfarfod Llawn gan ddefnyddio un ai'r weithdrefn Safonol neu'r weithdrefn Garlam, ond ni ellid ei wella. Cytunodd y Pwyllgor y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam, a nododd nad oedd rhaid i'r Dirprwy Lywydd benderfynu a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor pwnc neu beidio.

**<u>Rheoliadau'r Cynllun Taliadau Anarddwys (EPS) 2001</u>**

4.11  Nododd y pwyllgor Busnes y papur BC53-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig ar y gorchymyn uchod a oedd yn cael ei lunio ar y cyd gyda Lloegr o dan Reol Sefydlog 23. Nodwyd y gellid cyflwyno'r gorchymyn i Gyfarfod Llawn gan ddefnyddio un ai'r weithdrefn Safonol neu'r weithdrefn Garlam, ond ni ellid ei wella.  Cytunodd y Pwyllgor y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol, a nododd nad oedd rhaid i'r Dirprwy Lywydd benderfynu a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor pwnc neu beidio.

**Is-ddeddfwriaeth sydd ar y gweill**

4.12  Cyflwynodd y Trefnydd bapur (BC54-01) a oedd yn rhoi syniad o'r is-ddeddfwriaethau a fyddai'n cael eu cyflwyno cyn diwedd y flwyddyn, a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer ymdrin â hwy.  Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi taw dim ond mewn sefyllfaoedd eithriadol y byddai'r weithdrefn Weithredol yn cael ei defnyddio, a taw'r gweithdrefnau Safonol a Charlam fyddai'r ffordd arferol o ymdrin â hwy.  Gofynnodd y Dirprwy Lywydd pam y byddai 9 gorchymyn yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn Weithredol cyn y Pasg. Dywedodd Marion Stapleton taw'r rheswm tebygol am hyn oedd bod dyddiadau terfynol caeth ar gyfer eu rhoi ar waith, ac na fyddai'r gorchmynion yn cael eu drafftio mewn digon o amser i ddod i Gyfarfod Llawn cyn y toriad. Serch hynny, byddai'n ceisio cael gwybodaeth fwy clir, ac wedyn byddai'n adrodd yn ôl.  Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod yn gobeithio taw dim ond ychydig o orchmynion a fyddai'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol yn ystod Toriad yr Haf.  Pwysleisiodd y Trefnydd fod llai o orchmynion yn cael eu gwneud gan y weithdrefn Weithredol, ond ei bod yn weithdrefn gyfreithlon o dan y Rheolau Sefydlog.  Nododd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol cael rhestr o deitlau'r Gorchmynion sydd ar y gweill.  Cytunwyd bod cyfraniad pwyllgor pwnc yng nghamau cynnar y broses o ystyried is-ddeddfwriaeth yn aml yn werthfawr, ac yn lleihau'r angen i orchymyn drafft gael ei gyfeirio'n ffurfiol at y Pwyllgor yn nes ymlaen yn y broses.  **Gweithredu: Marion Stapleton i adrodd yn ôl ar orchmynion sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol.**

**5.  Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

5.1  Dim

**6.  Pwyllgorau**

6.1  Dim

**7.  Busnes sydd ar y gweill**

**Busnes yr wythnos hon**

7.1  Dywedodd y Trefnydd y byddai canlyniad y cyfarfod rhwng yr undebau llafur a Corus ddydd Mercher yn pennu a fyddai unrhyw ddatganiadau yn cael eu gwneud yn hwyrach yr wythnos honno.

7.2  Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC51-01).

**Busnes a gynigir ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau ar 26 Chwefror, 5 a 12 Mawrth 2001**

7.3  Dywedodd y Pwyllgor wrth y Trefnydd y dylai busnes y Cynulliad fynd ymlaen fel yr amlinellwyd yn ei ddatganiad ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau ar 26 Chwefror, 5 a 12 Mawrth.

7.4  Yn ogystal â hyn, cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- Roedd anerchiad Bertie Ahern ar 1 Mawrth yn ddigon pwysig i gael ei wneud cyn diwedd y Cyfarfod Llawn;
- Ni fyddai dadl arbennig er mwyn nodi Dydd Gwyl Dewi;
- Nid oedd angen symud y ddadl fer o 1 Mawrth;
- Ni fyddai dadl arbennig er mwyn nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfodydd Llawn**

8.1  Ystyriodd y Pwyllgor brotocol y Cabinet ar ddatganiadau (BC89-99), ac ystyriodd ddyfyniad o'r Cyfarfod Llawn ar ddydd Iau, 8 Chwefror (BC50-01). Dywedodd y Trefnydd y byddai'n darparu Datganiadau gan y Cabinet drwy anfon e-bost at bob Aelod o'r Cynulliad. **Gweithredu: Y Trefnydd**

**9.  Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

9.1  Roedd y Rheolwyr Busnes wedi bod yn ystyried papur BC28-01 ar ddiwygiad arfaethedig i Reol Sefydlog 12.7 (y darpariaethau ar gyfer anghymhwyso aelodau o'r Pwyllgor Archwilio).  Cytunwyd ar y canlynol:

- dylai'r Rheolau Sefydlog ddarparu ar gyfer anghymhwyso aelodau o ystyried materion os oeddynt, ar yr amser perthnasol, wedi bod yn aelod o Gabinet y Cynulliad; a
- dylai'r Llywydd gyhoeddi canllawiau i aelodau ar osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio.

Nododd y Pwyllgor y dylai'r diwygiad i'r Rheol Sefydlog fod yn barod erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio ar 8 Mawrth.
Cytunwyd y byddai adroddiad drafft y Pwyllgor Busnes yn cael ei anfon at y Rheolwyr Busnes y tu allan i'r pwyllgor, fel y gellid cytuno arno a'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno cyn gynted â phosibl. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**10. Penderfyniadau'r Llywydd**

10.1  Dim

**11. Unrhyw fusnes arall**

11.1  Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylid gwneud Aelodau yn gwbl ymwybodol o'r manylion a'r goblygiadau wrth ystyried cynigion i drosglwyddo swyddogaethau i'r Prif Weinidog.  Cytunwyd bod hwn yn fater y gallai Adolygiad Gweithdrefnau'r Cynulliad ei ystyried. **Gweithredu: Swyddfa'r Llywydd i gyfeirio at Adolygiad Gweithdrefnau'r Cynulliad**

11.2  Gofynnodd William Graham i'r Trefnydd a oedd cynigion ei blaid ar gyfer dadleuon mewn Cyfarfodydd Llawn (paragraffau 7.5 yn BC32-01) wedi cael eu hystyried.  Dywedodd y Trefnydd fod y rhestr wedi ei bwydo i'r broses gynllunio.

11.3  Mewn ymateb i gwestiwn gan William Graham, cadarnhaodd y Trefnydd nad oedd yn bosibl cyflwyno cwestiynau llafar iddo ef ar faterion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, oherwydd nad oedd unrhyw swyddogaethau ffurfiol wedi'u dirprwyo iddo, er bod ganddo rôl gydlynol yn y Cabinet o ran y materion hyn.  Serch hynny, pwysleisiodd y gallai Aelodau gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig iddo.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**